
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 838 (Cy. 195)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

**Rheoliadau Iechyd Planhigion
(Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru)
(Diwygio) (Rhif 2) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ac maent yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/497 (Cy. 114)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynyddu'r ffioedd am wasanaethau mewn perthynas ag awdurdodiadau pasbortau planhigion a cheisiadau am dystysgrifau ffytoiechydol (gan gynnwys tystysgrifau ffytoiechydol ar gyfer ailallforio) i adlewyrchu cynnydd chwyddiannol o ran y gost o ddarparu'r gwasanaethau hynny ers cyflwyno'r ffioedd hynny. Mae'r ffioedd sy'n ymwneud ag awdurdodiadau pasbortau planhigion wedi cynyddu 34% ar gyfer y cyfnod rhwng 2006 a 2020, tra bod y ffioedd ar gyfer tystysgrifau allforio wedi cynyddu 40% ar gyfer y cyfnod rhwng 2004 a 2020 (yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchenfeddianwyr (CPIH)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 838 (Cy. 195)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

Rheoliadau Iechyd Planhigion
(Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru)
(Diwygio) (Rhif 2) 2021

Gwnaed 13 Gorffennaf 2021

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 15 Gorffennaf

Yn dod i rym 5 Awst 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 5 Awst 2021.

(1) 2018 p. 16 ("Deddf 2018"). Mae Gweinidogion Cymru yn "appropriate authority" yn rhinwedd paragraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf 2018. Diwygiwyd ystyr "appropriate authority" ym mharagraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf 2018 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) a pharagraff 47(5) o Atodlen 5 iddi.

**Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd)
(Coedwigaeth) (Cymru) 2019**

2.—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle Atodlen 1 rhodder—

“ATODLEN 1 Rheoliad 3(2)

**Ffioedd am arolygiadau mewn
cysylltiad ag awdurdodiad pasbort
planhigion**

Math o arolygiad	Ffi
Arolygiad ffisegol a gweithgareddau cysylltiedig (gan gynnwys amser teithio ac amser swyddfa) mewn cysylltiad â rhoi, amrywio neu atal dros dro awdurdodiad pasbort planhigion neu er mwyn monitro cydymffurfedd â'r awdurdodiad hwnnw—	
(a) hyd at a chan gynnwys yr awr gyntaf;	£49.50
(b) wedi hynny, am bob 15 munud ychwanegol neu ran o'r cyfnod hwnnw	£12.38”.

(3) Yn lle Atodlen 4A rhodder—

“ATODLEN 4A
Rheoliad 3(5A)

**Ffioedd mewn cysylltiad â chais am
dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer
allforio neu dystysgrif ffytoiechydol
ar gyfer ailallforio: Cymru**

<i>Gwasanaeth</i>	<i>Ffi</i>
Ystyried cais, gan gynnwys dyroddi, pan fo'n briodol, tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio	£21.00

(1) O.S. 2019/497 (Cy. 114), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/44 (Cy. 5); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Archwilio neu brofi pren, cynhyrchion pren, rhisgl wedi ei wahanu neu beiriannau coedwigaeth a ddefnyddiwyd a gweithgareddau cysylltiedig (gan gynnwys amser teithio ac amser swyddfa)—

- (a) hyd at a chan gynnwys yr awr gyntaf; £37.80
 - (b) wedi hynny, am bob 15 munud ychwanegol neu ran o'r cyfnod hwnnw. £10.50".
-

Julie James
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion
Cymru
13 Gorffennaf 2021